# Newyddlen Y Shed
# Hydref 2018

MELIDEN RESIDENTS ACTION GROUP

## Y Shed

Mae'r prosiect yn golygu adnewyddu'r hen sied nwyddau, a'i throi'n ased cymunedol, bywiog a chynaliadwy. Y weledigaeth yw datblygu canolfan ar gyfer y gymuned leol, gan gynnig cyfleoedd gwirfoddoli, menter, cyflogaeth a dysgu mewn adeilad sy'n gyfoes ac yn dal i gydfynd â'i nodweddion cryf gwreiddiol.

Bydd Y Shed yn ganolfan sy'n ymgorffori treftadaeth gyfoethog Gallt Melyd ac yn annog ymwelwyr i'r ardal. Bydd y prosiect yn cynnal caffi, cegin fasnachol, unedau busnes ar gyfer crefftwyr lleol, cyfleuster hurio beiciau, siop gymunedol a man treftadaeth.

## Gwaith Adeiladu






Mae wedi bod yn haf prysur iawn yn Y Shed, gyda chragen a tho'r adeilad nawr wedi eu gorffen.
Fel y gwelwch o'r lluniau mae'r gwaith tu fewn i'r adeilad o dan waith ac yn datblygu o wythnos i wythnos.

## Unedau Busnes a'r Caffi

Ar hyn o bryd rydym yn hysbysebu'r unedau busnes a'r caffi felly os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw un, neu yn gwybod am rywun arall byddai, cysylltwch â ni (manylion cyswllt isod) am sgwrs a ffurflen datgan diddordeb. Dyddiad cau am ffurflenni: 26/11/18.

## Digwyddiadau a Chodi Arian

Mae'r grŵp digwyddiadau a chodi arian bron a chyrraedd eu targed erbyn hyn. Buom yn codi ymwybyddiaeth a chodi arian eto eleni yn Tesco Prestatyn mis Mai gan godi £254.57. Lansiwyd apêl codi arian ar lein a derbyniwyd cyfraniadau o £200, a hefyd buom yn ôl tu allan i Y Shed gyda stondin i godi ymwybyddiaeth, a siaradwyd gyda dros 200 o bobl gyda'r adborth yn bositif iawn a siaradwyd gyda chysylltiadau defnyddiol.

## Treftadaeth

Mae treftadaeth yr ardal yn agwedd bwysig y prosiect ac mae themâu'r hanes a'r dreftadaeth wedi'u cadarnhau. Dros yr wythnosau nesaf, bydd yr ymgynghorwyr treftadaeth yn cadarnhau eu dyluniadau gyda mewnbwn aelodau'r grŵp treftadaeth. Trefnir sesiwn ar gyfer y **30ain o Hydref rhwng 10am-1pm yng Nghanolfan Gymunedol Gallt Melyd** lle gall pobl ddod ag unrhyw luniau sydd ganddynt o'r pentref i'w copïo. Bydd hefyd yn gyfle i chi ddod ag unrhyw arteffactau eraill gyda chi i ddangos i ni neu ddweud wrthym am hanes / storïau diddorol yr ydych wybod. Byddem yn ddiolchgar iawn i bobl fynychu gan y gallai helpu gyda chynnwys Y Shed. Os na allwch ei wneud ar y diwrnod ond yr hoffech rannu rhywbeth gyda ni, cysylltwch â ni (manylion cyswllt isod).

## Gwirfoddoli

Os oes gennych ddiddordeb i wirfoddoli hefo'r prosiect e.e. treftadaeth, gweithgareddau neu ofal cwsmer, cysylltwch â ni (manylion cyswllt isod).

Cysylltwch â'r Tîm Mentrau Cymunedol: 0300 111 2122 neu drwy ebost ar yshed@grwpcynefin.org

@YShedMeliden

# Y Shed Newsletter October 2018

## Y Shed

The project involves renovating the old goods shed into a vibrant and sustainable community asset. The vision is to develop a hub for the local community, offering volunteering, enterprise, employment and learning opportunities within a building that is contemporary whilst still in keeping with its original strong features.

Y Shed will be a centre which incorporates the rich heritage of Meliden and encourages visitors to the area. The project will host a cafe, commercial kitchen, business units for local artisans, bike hire facility, community shop, and heritage space.

## Build Work









It has been a very busy summer in Y Shed with the shell and roof of the building now finished.
As you can see from the pictures, the work inside the building is well underway and is developing from week to week.

## Business Units and Café

We are currently advertising the business units and the café so if you are interested or know of anyone else that would be, please contact us (contact details below) for a chat and a declaration of interest form. Deadline for forms: 26/11/18.

## Events and Fundraising

By now, the events and fundraising group has almost reached the target. We raised awareness and fundraised again this year at Tesco Prestatyn in May raising £254.57. An online fundraising appeal was launched and contributions totalling £200 were received, and we also went back to the outside of Y Shed with a stand to raise awareness and we spoke with over 200 people and received positive feedback and spoke with useful contacts.

## Heritage

The heritage of the area is an important aspect of the project and the themes for the heritage have been confirmed. Over the next few weeks, the heritage consultants will be confirming their designs with the input of the heritage group members. There is a session arranged for the **30th October between 10am-1pm at the Meliden Community Centre** where people can bring any images they have of the village to be copied. It will also be an opportunity for you to bring any other artefacts with you to show us or tell us some interesting history/stories that you know. We would be very grateful for people to attend as it could help with content for Y Shed. If you can't make it on the day but would like to share something with us, please contact us (contact details below).

## Volunteering

If you are interested in volunteering with the project e.g. heritage, activities or customer care, please contact us (contact details below).

Contact the Community Initiatives Team on: 0300 111 2122 or by e-mail on yshed@grwpcynefin.org

@MelidenShed